National Deaf Children's Society
CYMRU

# Mae colled ar glyw fy mabi



Cefnogaeth i rieni sydd â phlant 0-2 oed



www.ndcs.org.uk

**Ein gweledigaeth yw byd heb rwystrau ar gyfer pob plentyn byddar.**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rydw i newydd ddarganfod bod colled ar glyw fy mabi | 5 |
| 2. | Pam fod fy mabi'n fyddar? | 7 |
| 3. | A allai'r diagnosis fod yn anghywir? | 8 |
| 4. | Sut bydd fy mhlentyn yn cyfathrebu? | 11 |
| 5. | Sut bydd dyfodol fy mhlentyn? | 14 |
| 6. | Beth alla i wneud i helpu fy mabi nawr? | 17 |
| 7. | A fyddent yn cael trafferth yn yr ysgol | 18 |
| 8. | Pa gymorth sydd ar gael i ni? | 21 |
| 9. | Cwrdd â theuluoedd eraill sydd â phlentyn byddar | 24 |
| 10. | Ein gwybodaeth a chefnogaeth | 25 |


**!** Defnyddiwn y term 'byddar' i gyfeirio at bob math o golled clyw o fan i ddwys. Mae hyn yn cynnwys byddardod mewn un glust neu fyddardod dros dro fel clust ludiog.

Defnyddiwn y term 'rhiant' i gyfeirio at bob rhiant a gofalwyr plant.





# 1 Rydw i newydd ddarganfod bod colled ar glyw fy mabi

Mae'r rhan fwyaf o blant byddar yn cael eu geni i rieni sy'n clywed sydd heb unrhyw brofiad blaenorol o fyddardod, felly i rai teuluoedd, pan ddywedir wrthynt fod colled ar glyw eu babi, gall y newyddion fod yn ergyd mawr. Mae genedigaeth baban newydd yn dod â chymysgedd o emosiynau, a gall fod yr un mor wir i rieni pan fyddant yn darganfod bod colled ar glyw eu plentyn – efallai eich bod chi'n teimlo'n drist, yn poeni neu'n teimlo'n ddig, neu ryddhad eich bod chi wedi cael diagnosis. Efallai byddwch yn cael eich llethu gan rai o'r dewisiadau y gofynnir i chi eu gwneud mor gynnar ym mywyd eich plentyn. Efallai byddwch yn meddwl am beth fydd bod yn fyddar yn golygu i'ch plentyn, chi, a'ch teulu wrth iddynt dyfu, ac efallai bydd gennych lawer o gwestiynau – sut byddan nhw'n cyfathrebu? A ddylen ni ddysgu arwyddo? A ddylen nhw fynychu ysgol prif ffrwd?



> **"Cafodd fy mab ifanc, Preston, ei eni'n gynnar a chafodd diagnosis o fyddardod yn chwe wythnos oed a chafodd ei gymhorthion erbyn iddo droi'n wyth wythnos oed. Nawr mae'n chwech oed, mae ei eirfa yn well na f'un i, mae'r plant yn ei ddosbarth i gyd yn dwli arno, ac mae wastad wedi rhagori [ar ddisgwyliadau] yn yr ysgol. Fy Preston perffaith i yw e, a fuaswn i ddim yn ei newid am y byd."**

Ni yw'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, yr elusen fwyaf blaenllaw i blant byddar. Darparwn gymorth i deuluoedd fel y gallant roi'r gefnogaeth orau i'w plant byddar ar bob cam o'r ffordd, ac rydyn ni yma i chi.

**“Doeddwn i erioed wedi meddwl y gallai fod yn fyddar. Roeddwn i’n teimlo mor euog ac yn meddwl mai efallai fi oedd wedi’i achosi.”**

## 2 Pam fod fy mabi'n fyddar?

Gall fod nifer o resymau pam fod colled ar glyw eich plentyn. Weithiau nid oes achos amlwg.

Mae'n annhebygol iawn y gallech chi fod wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol i newid clyw eich plentyn. Mae yna nifer o achosion o fyddardod posib.

- Genetig – gall byddardod gael ei etifeddu, hyd yn oed er ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw hanes o fyddardod yn y teulu. Mae tua hanner y plant byddar sy'n cael eu geni yn y DU yn fyddar oherwydd genyn etifeddol.
- Cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd – gall nifer o heintiau achosi i blentyn gael ei eni'n fyddar.
- Genedigaeth cyn pryd – gall babanod sy'n cael eu geni'n gynnar wynebu risg uwch o fod yn fyddar neu o fynd yn fyddar. Gallant hefyd fod yn fwy tueddol i ddioddef heintiau a gallant gael meddyginiaethau, a elwir yn gyffuriau ototocsig, sy'n gallu achosi niwed i glyw babi.
- Haint – gall salwch yn ystod plentyndod cynnar hefyd achosi byddardod.

Gall eich awdiolegydd roi mwy o wybodaeth i chi am brofion i ddarganfod achos colled clyw eich plentyn, ond mae'n bwysig cofio bydd profion yn gallu canfod achos byddardod mewn 40-50% o blant yn unig. I'r 50-60% o'r achosion sy'n weddill nid yw'n bosib darganfod pam bod plentyn yn fyddar. Os nad yw'n bosib darganfod achos colled clyw eich plentyn, efallai y bydd dal yn ddefnyddiol i chi gallu diystyru rhai achosion.

## 3 A allai'r diagnosis fod yn anghywir?

Mae rhieni wedi dweud wrthym fod yr ergyd neu'r syndod o ddarganfod bod colled ar glyw eu babi yn gallu golygu bod, yn y lle cyntaf, eu bod nhw'n ei gweld hi'n anodd derbyn y newyddion.

Gall fod resymau eraill heblaw byddardod i esbonio pam bod babi yn methu'r prawf sgrinio clyw babanod, er enghraifft hylif ym mhibell y glust o'r enedigaeth neu nam ar y clyw dros dro, fel clust ludiog. Ar ôl sgrinio babanod cewch eich cyfeirio at y clinig awdioleg ar gyfer profion manylach ac wrth i'ch babi dyfu caiff y profion eu hail-wneud er mwyn cael darlun mwy clir o'r golled clyw.





Ceir gwahanol lefelau o fyddardod a gellir eu disgrifio fel mân, cymedrol, difrifol a dwys, a gall colled clyw effeithio ar y ddwy glust (byddardod dwyochrog) neu un glust (byddardod unochrog). Bydd eich awdiolegydd yn esbonio canlyniadau profion clyw eich plentyn a siarad â chi am y synau y gall eich plentyn eu clywed a'r rhai na allant eu clywed. Gan fod byddardod yn gallu amrywio'n aruthrol, bydd lefel byddardod eich plentyn yn pennu'r cymorth bydd angen arnynt.

Os nad ydych yn siŵr am unrhyw ran o'r wybodaeth rydych chi wedi'i derbyn, gallwch fynd yn ôl a gofyn i'r awdiolegydd i'w esbonio. Cymerwch restr o gwestiynau gyda chi i'ch apwyntiadau awdioleg a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n deall eu hatebion yn llwyr. Gofynnwch am gopïau o ganlyniadau profion ac adroddiadau ar gyfer eich cofnodion.

Mae'n bwysig eich bod chi'n teimlo'n gyfforddus gyda rheolaeth colled clyw eich plentyn, felly os nad ydych chi'n hapus, mae'n iawn i ofyn am ail farn. Nid oes hawl gyfreithiol i gael ail farn ar y GiG, ond prin y caiff ei gwrthod os gofynnwch amdani.

**Am fwy o wybodaeth ar ddeall profion clyw eich plentyn neu ba gwestiynau i ofyn i'ch awdiolegydd, ymwelwch â www.ndcs.org.uk/hearingtests.**



## 4 Sut bydd fy mhlentyn yn cyfathrebu?

Mae cyfathrebu yn dechrau'r eiliad mae eich plentyn yn cael ei eni. Wrth i chi gofleidio'ch babi, rydych chi'n dangos iddynt "Rwy'n dy garu di. Byddaf yn dy gadw di'n ddiogel a chynnes." Mae dysgu ac eisiau cyfathrebu yn rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol ym mhob plentyn. Gall fod yn fyddar gwneud hyn yn fwy heriol ond, gyda'r gefnogaeth gywir, ymroddiad ac anogaeth gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol, gall plant byddar ddysgu i gyfathrebu cystal â phlant eraill.

> **"Un o fy mhryderon mwyaf ar ôl derbyn diagnosis fy merch oedd dros ba mor hawdd fyddai i gyfathrebu gyda hi, i gael y sgyrsiau hawdd rydyn ni'n cael gyda'n plant eraill."**

Trwy ddefnyddio teclynnau clyw, mewnblaniadau ac offer arbenigol eraill, mae'r mwyafrif o blant byddar nawr yn defnyddio eu clyw i wrando ac i ddysgu un iaith ar lafar, neu mwy. Mae nifer fawr o blant byddar hefyd yn:

- defnyddio rhywfaint o iaith arwyddion yn ogystal ag iaith ar lafar
- defnyddio iaith arwyddion fel eu hiaith gyntaf a'u prif ffordd o gyfathrebu a dysgu
- defnyddio amryw o ddulliau.

Mae yna fanteision ac anfanteision i bob dull a gallwn ni eich cefnogi chi i ddarganfod beth ydynt er mwyn eich helpu chi i benderfynu beth fyddai'n gweithio orau i chi, i'ch plentyn a'ch teulu.

Cofiwch, nid oes rhaid i chi wneud dewis am oes. Efallai byddwch chi eisiau newid eich dull wrth i chi ddysgu mwy am anghenion a dewisiadau eich plentyn.

**Cewch mwy o wybodaeth am wahanol ffyrdd o gyfathrebu yn www.ndcs.org.uk/communication.**

## Sut all technoleg helpu

Mae technoleg, fel teclynnau clyw a mewnblaniadau, yn galluogi'r mwyafrif o blant byddar glywed synau sy'n agos i lefelau clyw nodweddiadol, ond, ni all gymryd lle clyw arferol.

> **"Dylwn i wedi gofyn beth fyddai hi'n gallu clywed gyda'r dechnoleg gywir; o fewn ychydig roeddwn i'n falch ac roedd yn rhyddhad bod, hyd yn oed gyda cholled clyw difrifol, bod ei theclynnau clyw gwych yn ei helpu i glywed gymaint well nag oeddwn i erioed wedi mentro gobeithio amdano. Wyddwn i ddim am y dechnoleg ragorol sydd ar gael a gall ddysgu am hyn yn gynharach wedi atal sawl noson heb gwsg."**

Yn fuan ar ôl diagnosis, dylai Athro Plant Byddar eich plentyn cysylltu â chi. Eu nod, ynghyd â thîm awdioleg eich plentyn, bydd gael darlun clir o golled clyw eich babi a byddent yn siarad â chi am yr hyn y gallwch ei wneud i gefnogi datblygiad lleferydd ac iaith a chyfathrebu eich plentyn.

Hyd yn oed gyda theclynnau neu fewnblaniadau, bydd adegau pan fydd eich plentyn yn cael anhawster i glywed yn glir o'i gymharu â phlant sy'n clywed, ond mae technoleg arall ac addasiadau ar gael i wneud gwrando mor hawdd â phosib iddynt. Gall eich awdiolegydd neu Athro Plant Byddar eich cynghori ynglŷn â hyn.

**Dysgwch fwy am fyddardod plant, yn cynnwys opsiynau technoleg clyw yn www.ndcs.org.uk/childhooddeafness.**

## Lleferydd ac iaith

Os ydych yn pryderu am ddatblygiad lleferydd ac iaith eich plentyn, efallai bod angen rhywfaint o therapi lleferydd ac iaith arnynt. Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio fel rhan o dîm gydag awdiolegydd ac Athro Plant Byddar eich plentyn i helpu eich plentyn a'r bobl o'i gwmpas i gyfathrebu cystal â phosib (yn defnyddio iaith arwyddion neu ar lafar). Siaradwch â'ch Athro Plant Byddar, meddyg teulu, ymwelydd iechyd neu staff y feithrinfa i ofyn am gyfeiriad at therapydd lleferydd ac iaith.



## 5 Sut bydd dyfodol fy mhlentyn?

Er bod anghenion a gallu pob plentyn yn wahanol, gallwch ddisgwyl i'ch plentyn mwynhau plentyndod sydd mor hapus a llawn â phlentyn sy'n clywed – chwarae, gwneud cyfeillion, mwynhau chwaraeon a gweithgareddau hamdden, cyraeddiadau yn yr ysgol a chael hwyl! Efallai byddai angen arnynt dipyn o gefnogaeth ychwanegol neu ychydig o addasiadau, ond ar y cyfan does dim lot bod plentyn sydd â nam ar y clyw methu ei wneud.



Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd ei arddegau ac yn dod yn fwy annibynnol, fe welwch ei fod yn gallu dewis i ddysgu i yrru, teithio, gweithio, astudio ac yn y pen draw dilyn gyrfa lwyddiannus a boddhaus. Ni ddylai byddardod rwystro'ch plentyn rhag gwneud yr hyn maen nhw wir eisiau ei wneud. Gyda'r gefnogaeth gywir, bydd y rhan fwyaf o opsiynau bywyd, addysg a gyrfa ar gael i'ch plentyn, felly anogwch nhw i anelu'n uchel! Mae ein cylchgrawn, *Families*, yn cynnwys straeon am blant a phobl ifanc byddar yn llwyddo ym mhob rhifyn.

**Gwyliwch ein rhestr chwarae o fideos o bobl ifanc byddar yn eu harddegau ar ein sianel YouTube (ymwelwch â www.youtube.com/ndcswebteam a chwiliwch am 'teenagers') i weld yr hyn y gallai'r dyfodol ei gynnig i'ch plentyn.**

**“I bob rhiant sydd â phlentyn sydd newydd gael diagnosis o fyddardod, dwi’n adnabod y boen, dicter, ofn, pryder a hyd yn oed ymdeimlad o golled ond un diwrnod byddwch chi’n sylweddoli eich bod chi wedi ymdopi a bod eich plentyn yn ffynnu.”**


strip



## 6 Beth alla i wneud i helpu fy mabi nawr?

Mae babanod yn dysgu am eu byd bob dydd, p'un ai ydynt yn gallu clywed neu beidio. Siaradwch neu canwch i'ch babi am beth rydych chi'n ei wneud a beth sy'n digwydd o'u cwmpas, hyd yn oed os nad ydych yn siŵr beth allant ei glywed. Gwnewch yn siŵr bod eich baban yn gallu gweld eich wyneb, copïwch eu synau a mynegiannau eu hwynebau a chwaraewch gemau gyda'ch gilydd fel 'pi-po'. Peidiwch ag anghofio bod cofleidio, cysuro, siglo, gwenu a chanu i gyd yn ffurf o gyfathrebu.

Mae dyfodiad babi newydd yn amser mor arbennig i chi a'ch teulu ac rydyn ni yma i'ch cefnogi chi wrth i chi groesawu'ch aelod newydd i'r teulu. Dewch i adnabod eich babi newydd a'i bersonoliaeth a threulio amser gyda'ch gilydd fel teulu dim ond yn cofleidio a chwarae! Mwynhewch eich babi a sefydlwch drefn gyffyrddus.



Mi fydd llawer o benderfyniadau i'w gwneud yn y dyfodol, ac efallai cewch eich llethu gan y dewisiadau y gofynnir i chi eu gwneud ar hyn o bryd, ond gall y rhan fwyaf ohonynt aros – cymerwch un cam ar y tro. A chofiwch, gall y penderfyniadau rydych chi'n eu gwneud nawr cael eu newid – efallai na fydd yr hyn sy'n gywir i chi a'ch teulu nawr dal i fod yn gywir o fewn ychydig o flynyddoedd.

**Am fwy o awgrymiadau a syniadau ymarferol am sut i helpu'ch babi chi, ymwelwch â www.ndcs.org.uk/developingcommunication.**

## 7 A fyddent yn cael trafferth yn yr ysgol?

Gyda'r gefnogaeth gywir, ymroddiad ac anogaeth gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol, gall plant byddar gyflawni'r un cynnydd academaidd â phlant sy'n clywed.

Pan fydd eich plentyn yn hŷn, bydd rhaid i chi ddewis pa fath o ysgol sydd yn well iddynt. Ar y pryd, bydd y dewis hwn yn seiliedig ar eich plentyn a'i anghenion, eich teulu a nifer o ffactorau eraill a fydd yn newid fel i'ch plentyn dyfu, felly nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniadau ar hyn o bryd.

Mae'r gyfraith yn gofyn bod pob ysgol yn cymryd camau i gefnogi pob plentyn sydd â chyflwr meddygol ac anableddau, yn cynnwys colled clyw, fel y gallant gael mynediad llawn at addysg.

Ni fydd dau blentyn byddar angen yr un gefnogaeth – rhaid i'r gefnogaeth diwallu anghenion unigol eich plentyn, felly cyn i'ch plentyn ddechrau'r ysgol, gallwch siarad â'i athro dosbarth neu gydlynydd anghenion addysgol arbennig (CAAA) am ba addasiadau i roi ar waith. Gallwch hefyd ofyn am gyngor gan y gwasanaeth addysg arbenigol i blant byddar, sy'n cyflogi timau o Athrawon Plant Byddar (APB). Hefyd dylid adolygu'r gefnogaeth yn rheolaidd a'i diwygio i ymaddasu i anghenion eich plentyn a fydd yn newid wrth iddynt dyfu.

**Am wybodaeth ar ddewis ysgol, ymwelwch â www.ndcs.org.uk/choosingaschool.**

Os ydych erioed yn pryderu nad yw ysgol eich plentyn yn gwneud digon neu fod eich plentyn yn syrthio'n ôl yn yr ysgol, cysylltwch â'n Llinell Gymorth Rhadffôn am gymorth a chyngor ar beth i'w wneud nesaf.

**“Mae pob eiliad o ofni, pryderu a thorcalon i gyd gwerth chweil pan mae’ch plant yn tyfu, mae eu lleferydd yn gwella ac maen nhw’n gwneud yn dda yn yr ysgol”**


HAPPY
YEAH
SUPER

## 8 Pa gymorth sydd ar gael i ni?

Mae'n bwysig eich bod chi'n cofio mai chi sy'n adnabod eich plentyn yn well nag unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda chi. I nifer fawr o deuluoedd, yr Athro Pant Byddar fydd yn debygol o fod y prif berson sy'n gyfrifol am gyd-drefnu cymorth blynyddoedd cynnar i'r teulu. Byddant yn eich ymweld â chi i'ch cefnogi gydag unrhyw cyfarpar clyw newydd, eich helpu chi gyda chyfathrebu a'ch plentyn a siarad am beth allwch chi ei ddisgwyl yn y dyfodol. Bydd amlder ei ymweliadau yn dibynnu arnoch chi ac anghenion eich plentyn.

> **"Roedd Athro Plant Byddar gwych gennym a oedd yn helpu i ni sylweddoli nid ein bai ni oedd hyn."**

### Gwasanaethau a all eich cefnogi

Gallwch hefyd gwrdd â gweithwyr proffesiynol mewn:

- gwasanaethau iechyd – awdiolegydd, meddyg awdiogynteddol, pediatrydd mewn awdioleg cymunedol, meddyg ymgynghorol ENT (clust, trwyn a gwddf), cynghorwr geneteg
- gwasanaethau addysg – gwasanaethau colled clyw (neu wasanaethau cefnogi synhwyrau), Athro Plant Byddar (APB), cydlynydd anghenion addysgol arbennig (SENCO), cydlynydd anghenion addysgol arbennig (CAAA), cynorthwyydd addysgu, gweithiwr cymorth cyfathrebu, awdiolegydd addysgol, seicolegydd addysgol, therapydd lleferydd ac iaith
- gwasanaethau cymdeithasol – gweithwyr cymdeithasol a all daprau cymorth a chyngor ymarferol i chi am gwnsela, trafnidiaeth, cyfarpar i'ch plentyn, cynlluniau chwarae, grwpiau rhieni, gwersi iaith arwyddion a mwy.

**Am fanylion pellach am bob un o'r proffesiynau a rhestrir uchod a beth yw eu rolau, ymwelwch â www.ndcs.org.uk/people.**

## Cefnogaeth allwn ni ei rhoi

Mae tîm plant a theulu ymroddedig gennym sy'n gweithio ledled y DU yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth ar ystod eang o faterion fel addysg, budd-daliadau, technoleg, gwasanaethau lleol ac unrhyw beth arall sy'n ymwneud â byddardod. Gallwn ni eich helpu chi i ddeall eich hawliau ac opsiynau, ac i wneud yn sicr eich bod chi'n teimlo'n hyderus i wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar eich plentyn.

Fel nifer fawr o rieni eraill, byddwch yn dysgu fel ichi fynd – yn dod i wybod mwy am fyddardod, darganfod beth sy'n gweithio orau i'ch plentyn, rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau ac yn addasu fel i'ch plentyn dyfu. Weithiau gallwch deimlo bod y pethau hyn yn annifyr neu'n ddryslyd, ond nid oes y fath beth â chwestiwn gwirion – efallai eich bod chi am wybod pam bod y teclynnau clyw yn chwibanu neu pam na allwch setlo'ch plentyn amser gwely, ymwelwch â'n gwefan neu cysylltwch â'n Llinell Gymorth.

> **"Rydw i wedi gallu derbyn bod fy mab yn fyddar, ond mae pethau dal i ddod i'r amlwg sydd yn fy nghymryd yn ôl i'r hen deimladau hynny. Ond mae'n lot haws i ddelio â phethau erbyn hyn!"**

## Gofalu amdanoch chi'ch hun

Cofiwch hoffai'r bobl sy'n gofidio amdanoch chi gynnig help a chymorth i chi. Gofynnwch iddyn nhw pan fod angen help arnoch chi, nid yn unig i'ch plentyn, ond i chi'ch hun hefyd – bydd adegau eraill pan fyddwch chi'n gallu ad-dalu'r gymwynas. Bydd pethau fel coginio pryd o fwyd, sgwrsio dros goffi neu gymryd eich plant eraill i'r ysgol i gyd yn eich helpu chi ac yn eu galluogi nhw i ddangos i chi eich bod chi'n bwysig iddynt.

Mae cael plentyn sydd â cholled clyw yn effeithio ar y teulu cyfan, felly siaradwch â'ch perthnasau a'ch ffrindiau am sut yr ydych yn teimlo, anogwch eich plant eraill i ddangos i chi sut ydynt yn teimlo a gwnewch yn siŵr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn bywyd eu brawd neu chwaer fyddar.

"Roedden ni'n trafod lliwiau teclyn buasai'n hoffi ac yn ceisio cynnwys pawb yn y penderfyniadau."

**Peidiwch ag anghofio, gallwch wastad siarad â'ch meddyg teulu i gael cefnogaeth bellach.**



# 9 Cwrdd â theuluoedd eraill sydd â phlentyn byddar

Pan fyddwch chi'n barod, gall gwrdd â rhieni a theuluoedd eraill sydd â phlentyn byddar ac yn rhannu'r un gofidiau â chi fod yn gymorth hanfodol. Cynhaliwn ddigwyddiadau ar gyfer aelodau'r teulu – mamau, tadau, teidiau a neiniau a brodyr a chwiorydd – fel y gall pawb gymryd rhan. **www.ndcs.org.uk/events**

> **"Un o'r pethau gorau i ni oedd ymuno â grŵp cymorth rhieni. Roedd yn gymaint o gymorth i allu siarad â phobl a oedd yn deall yr hyn oedden ni'n mynd trwyddo."**

Hefyd, efallai hoffech:

- ymuno â grŵp lleol i gwrdd â theuluoedd eraill yn eich ardal. Os na allwch fynychu grŵp lleol, gallwch dal ymuno a derbyn gwybodaeth a diweddariadau lleol **www.ndcs.org.uk/localgroups**
- sgwrsio â theuluoedd eraill trwy ymuno â'n cymuned ar-lein (a gaiff ei lansio yn haf 2018)
- darllen am brofiadau o gael plentyn â cholled clyw gan deuluoedd eraill yn ein cylchgrawn *Families* yn **www.ndcs.org.uk/magazine**
- dilyn ni ar Facebook yn **www.facebook.com/NDCS.UK.**



# 10 Ein gwybodaeth a chefnogaeth

Mae ymuno â'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn rhoi mynediad at ystod eang o wasanaethau i chi a all eich cefnogi ar wahanol gamau ar eich taith ac yn natblygiad eich plentyn. Hoffwn wneud popeth y gallwn i roi'r hyder i chi gallu cefnogi'ch plentyn a gwneud penderfyniadau.

## Y wybodaeth gywir ar yr adeg briodol

Cynigwn wybodaeth gytbwys am ddim am bob agwedd o fyddardod plant, ar ein gwefan **www.ndcs.org.uk** yn ogystal â mewn ein cyhoeddiadau. Gall ein cynnwys ar-lein a'n llyfrynnau gwybodaeth eich helpu i wneud rhai o'r penderfyniadau anodd a fydd yn eich wynebu.

## Eich helpu chi i wneud penderfyniadau hyddysg

Mae pob plentyn byddar yn wahanol a dylai teuluoedd gallu gwneud penderfyniadau sy'n fwyaf addas iddyn nhw. Dyna pam rydyn ni'n darparu cymorth annibynnol, yn cynnig yr opsiynau i gyd, fel y gall teuluoedd wneud penderfyniadau hyddysg am sut ydynt eisiau cyfathrebu, neu pa fath o dechnoleg clyw sy'n orau iddynt. Ni fyddwn ni byth yn hybu un ffordd benodol, ac rydyn ni wastad yn glir am yr effaith a gaiff ar fywyd plentyn.

## Cymorth pan fo'i angen arnoch

Unrhyw gwestiynau? Rydyn ni yma helpu.

**Llinell Gymorth Rhadffôn:**
**0808 800 8880**

**helpline@ndcs.org.uk**

**www.ndcs.org.uk/livechat**





# Amdanom ni

**Rydyn ni yma i bob plentyn byddar sydd ein hangen – beth bynnag yw eu lefel neu fath o fyddardod neu sut ydynt yn cyfathrebu.**

Ymwelwch â'n gwefan **www.ndcs.org.uk** neu cysylltwch â'n Llinell Gymorth Rhadffôn i weld sut allwn ni cefnogi eich plentyn ym mhob cyfnod o'u bywyd. Ymunwch â ni am ddim a gallwch:

- lawrlwytho neu archebu ein gwybodaeth am ddim
- mynychu ein digwyddiadau
- bod yn rhan o'n cymuned ar-lein
- benthyg cyfarpar trwy ein gwasanaeth benthyg technoleg
- darllen am brofiadau teuluoedd eraill yn ein cylchgrawn chwarterol a'n diweddariadau e-bost
- cael mynediad at gefnogaeth.

National Deaf Children's Society
CYMRU

**Ni yw'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, yr elusen fwyaf blaenllaw i gyfer plant byddar.**

**Llinell Gymorth Rhadffôn:**
0808 800 8880 (llais a thestun)
helpline@ndcs.org.uk

**www.ndcs.org.uk**

© Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar

Medi 2018. Adolygiad nesaf: Tachwedd 2020

Cyhoeddwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
37–45 Paul Street, London EC2A 4LS

Ffôn: 020 7490 8656 (llais a thestun) Ffacs: 020 7251 5020

Gellir gofyn am y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fel ffeil destun.

Am gyfeirnodau'r adnodd neu i anfon adborth mewn e-bost atom **informationteam@ndcs.org.uk.**

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1016532) ac yn yr Alban (SC040779), ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant a gofrestrwyd yn Lloegr, rhif 2752456. JR1252

National Deaf Children's Society CYMRU